Er na allwn ddyfarnu'r cynnydd chwyddiannol llawn a argymhellwyd i'r grantiau craidd ar gyfer 2026-27, mae cyfalaf ychwanegol o £3.057m wedi'i ddyrannu i BEL Cymraeg 2050 yng Nghyllideb Derfynol 2026-27. Bydd hyn yn helpu i gefnogi'r ymrwymiadau cyfalaf sy'n wynebu rhai sefydliadau a ariennir gan grant. Drwy ddarparu cymorth cyfalaf ychwanegol i sefydliadau fel yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, byddwn nid yn unig yn gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i bobl Cymru ond hefyd yn cryfhau cynaliadwyedd ariannol ac yn cyflawni arbedion yn y blynyddoedd i ddod. Mae hefyd yn cynnwys £0.050m i gyfrannu tuag at sefydlu'r Athrofa.

# 4. Argymhelliad 14 a 15

- Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu cynnydd termau real mewn cyllid ynghyd â'r cynnydd sy'n gymesur â'r gweithgareddau ychwanegol y gofynnir i'r Comisiynydd eu cyflawni.

- Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o unrhyw gytundeb cyllideb, geisio darparu'r £83,000 ychwanegol y gofynnwyd amdano i'r Comisiynydd fel rhan o'i hamcangyfrif i wneud gwaith yn ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Ymateb: Gwrthod

Darparodd y gyllideb ddrafft gyfanswm cyllideb refeniw o £3.475m ar gyfer y Comisiynydd yn 2026-27, a oedd yn gynnydd o 2% (£0.073m) o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Ers hynny, mae cynnydd chwyddiannol pellach o £0.036 miliwn ar gyfer refeniw wedi'i ddyrannu i gyllideb y Comisiynydd sy'n dod â chyfanswm y refeniw yng Nghyllideb Derfynol 2026-27 i £3.511 miliwn.

Rydym yn fodlon bod y Comisiynydd wedi cael cyllideb ddigonol i gyflawni ei dyletswyddau. Fel corff annibynnol, mater i'r Comisiynydd yw blaenoriaethu gweithgareddau o fewn y gyllideb sydd ar gael iddi.

# 5. Argymhelliad 16

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- darparu cynnydd chwyddiannol i Mudiad Meithrin ar yr un lefel â phartneriaid eraill sy'n gweithio i gefnogi a hyrwyddo'r iaith;
- nodi faint o gyllid y bydd y Mudiad Meithrin yn ei gael fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon, a ble mae'r cyllid hwnnw'n cael ei ddyrannu.

Ymateb: Derbyn

Mae'r cyllid i Mudiad Meithrin yn dod o BEL y Gymraeg mewn Addysg (MEG Addysg) a BEL y Gymraeg (MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) fel y nodir yn Atodiad 1. Bydd Mudiad Meithrin yn derbyn cynnydd chwyddiannol o 1% yn 2026-27 yn unol â dyraniadau grant eraill. Bydd y cynnydd o 1% yn cael ei gefnogi o'r cynnydd i BEL y Gymraeg a bydd yn gyfanswm o £44,510, gan gynyddu dyraniad cyffredinol Mudiad Meithrin i £4.496m yn 2026-27.

Darparwyd cynnydd untro o £0.5m i Mudiad Meithrin yn 2025-26, a gyda'r £44,510 ychwanegol a ddyrennir y flwyddyn nesaf, bydd Mudiad Meithrin yn derbyn cynnydd o 13.8% dros ddwy flynedd.

# 6. Argymhelliad 17

- Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl sut mae ARFOR wedi cael ei brif ffrydio i'r gyllideb gyffredinol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, mae ARFOR yn derbyn cyllid o £0.5m (MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio) yn bennaf i gynnal ymarfer 'oedi a myfyrio' ar ganfyddiadau allweddol y rhaglen hyd yma. Nod yr ymarfer fydd asesu'r hyn sydd wedi gweithio'n dda ac wedi cael effaith wirioneddol, nodi'r hyn sydd wedi bod yn llai llwyddiannus, ac archwilio cyfleoedd ar gyfer prif ffrydio gan Lywodraeth Cymru ac, yn fwy lleol, gan awdurdodau unigol. Mae'r adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddo ddod i ben erbyn diwedd Mawrth 2026.

Felly, derbynnir yr argymhelliad hwn 'mewn egwyddor' er mwyn peidio ag achub y blaen ar ganlyniadau'r adolygiad a chaniatáu amser i'w hystyried. Nid oes unrhyw ymrwymiad wedi'i wneud i ariannu rhaglen ARFOR y tu hwnt i'r tymor presennol. Bydd canfyddiadau'r ymarfer yn bwysig o ran llywio'r cyfeiriad y gwaith hwn yn y dyfodol.

# 7. Atodiad 1: Dyraniadau grant ar gyfer y Gymraeg 2026–27

| Sefydliad | Dyraniad grant 2025-26 | Cynnydd o 1% | Dyraniad grant 2026-27* |
|---|---|---|---|
| **BEL y Gymraeg (6020)** | | | |
| Prifysgol Caerdydd (Technoleg) | 8,400 | 84 | 8,500 |
| CFFI Cymru | 200,000 | 2,000 | 202,000 |
| Coleg Cymraeg Cenedlaethol | 10,382,000 | 103,820 | 10,485,900 |
| Cwmpas - Cynllun Grant Perthyn** | 400,000 | 0 | 400,000 |
| Cwmpas - Prosiect Perthyn - Cyngor a Chymorth | 157,500 | 1,575 | 159,100 |
| Cymdeithas Cerdd Dant Cymru | 10,500 | 105 | 10,700 |
| Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru | 68,250 | 683 | 69,000 |
| Cymdeithas Eisteddfodau Cymru | 58,850 | 589 | 59,500 |
| Cynllun Paragonia** | 80,000 | 0 | 80,000 |
| Eisteddfod Genedlaethol Cymru | 1,250,000 | 12,500 | 1,262,500 |
| Geiriadur Prifysgol Cymru | 425,000 | 4,250 | 429,300 |
| Llenyddiaeth Cymru - Bardd Plant Cymru | 6,000 | 60 | 6,100 |
| Mapio Cymru (Technoleg) | 10,500 | 105 | 10,700 |
| Merched y Wawr | 150,000 | 1,500 | 151,500 |
| Mentrau Iaith a Papurau Bro | 2,999,850 | 29,999 | 3,029,900 |
| Mudiad Meithrin - Cymraeg i Blant | 1,230,000 | 12,300 | 1,242,300 |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | 15,629,000 | 156,290 | 15,785,300 |
| Prifysgol Bangor - ARFer | 70,350 | 704 | 71,100 |
| Prifysgol Bangor - Iriaith (Technoleg) | 367,500 | 3,675 | 371,200 |
| Prifysgol Bangor - Y Termiadur Addysg | 158,550 | 1,586 | 160,200 |
| Hyrwyddo'r Gymraeg yn Llundain | 90,000 | 900 | 90,900 |
| Prosiect BRO | 100,000 | 1,000 | 101,000 |
| Prosiect WICI Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 15,750 | 158 | 16,000 |
| Urdd Gobaith Cymru | 2,713,500 | 27,135 | 2,740,700 |
| **Is-gyfanswm** | 36,581,500 | 361,015 | 36,943,400 |

* Mae'r dyraniadau grant wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf.

** Dim angen cynnydd chwyddiannol ar gyfer y grant

| **BEL y Gymraeg mewn Addysg (5164)** | | | |
|---|---|---|---|
| Pencampwr Iaith | 65,000 | 650 | 65,700 |
| e-sgol | 600,000 | 6,000 | 606,000 |
| Cwlwm | 190,000 | 1,900 | 191,900 |
| Mudiad Meithrin | 3,031,000 | 30,310 | 3,061,400 |
| RhAG | 105,000 | 1,050 | 106,100 |
| **Is-gyfanswm** | 3,991,000 | 39,910 | 4,031,100 |
| **Cyfanswm** | 40,572,500 | 400,925 | 40,974,500 |

**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

23 Ionawr 2026

Annwyl Delyth

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27, a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr 2025, sy'n amlinellu 21 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cydnabod y gwaith a wnaed gan aelodau'r Pwyllgor wrth iddynt graffu ar y Gyllideb Ddrafft, ac rydym yn croesawu'r adroddiad hwn. Amgaeir ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion 1-21, sy'n ymwneud â Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon, cyn y bleidlais ar y Gyllideb Derfynol ar 27 Chwefror.

Bydd yr ymatebion i'r argymhellion eraill yn cael eu darparu ar wahân gan y Gweinidog perthnasol.

Yn gywir

JACK SARGEANT

**Jack Sargeant AS/MS**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Minister for Culture, Skills and Social Partnership

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Gyllideb Ddrafft 2026-27

## Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 Llywodraeth Cymru.

Mae'n cynnwys ymatebion i argymhellion 1-11 sy'n dod o dan Bennod 2 – adran Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon yr adroddiad.

Bydd dau adroddiad arall ar wahân yn cael eu darparu yng nghyswllt Pennod 3 – yr Iaith Gymraeg (argymhellion 12-17) a Phennod 4 – Cysylltiadau Rhyngwladol (argymhellion 18-21).

# Cynnwys


1. **Cyflwyniad** ........ 3
2. **Argymhelliad 1** ........ 4
3. **Argymhelliad 2** ........ 6
4. **Argymhelliad 3** ........ 8
5. **Argymhelliad 4** ........ 10
6. **Argymhelliad 5** ........ 12
7. **Argymhelliad 6** ........ 13
8. **Argymhelliad 7** ........ 14
9. **Argymhelliad 8** ........ 15
10. **Argymhelliad 9** ........ 16
11. **Argymhelliad 10** ........ 17
12. **Argymhelliad 11** ........ 18

# 1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 ar 3 Tachwedd 2025. Roedd yn nodi cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2026 a Mawrth 2027.

Fel rhan o'r broses gyllidebol, darparwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol i gyfrannu at y gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2026-27. Roedd y papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol am gyllidebau yn y portffolio Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon.

Cynhaliwyd sesiwn tystiolaeth lafar ar 19 Tachwedd 2025 lle cafodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol dystiolaeth gan y Prif Weinidog, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 ar 15 Rhagfyr 2025. Rydym yn diolch i'r Pwyllgor am yr adroddiad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor ac yn ymateb i argymhellion 1-11 yng nghyswllt diwylliant, cyfathrebu a chwaraeon isod. Ar gyfer pob argymhelliad, rydym wedi rhoi ymateb ysgrifenedig a naill ai wedi penderfynu 'derbyn', 'derbyn mewn egwyddor' neu 'wrthod' pob argymhelliad.

# 2. Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon yn y Gyllideb Derfynol.

Ymateb: Derbyn

Cyllideb dreigl oedd y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd, a oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau presennol yn hytrach na rhai newydd yn bennaf; ond roedd ein huchelgais yn glir i ddyrannu'r holl gyllid a oedd ar gael i ni yn llawn, pe gallem sicrhau cefnogaeth i flaenoriaethau a rennir â gwrthbleidiau.

Ar 9 Rhagfyr 2025, fe wnaethom gyhoeddi ein bod wedi dod i gytundeb cyllideb gyda Phlaid Cymru er mwyn gallu pasio'r Gyllideb Derfynol, gan ganolbwyntio ar fuddsoddi yn y GIG ac mewn llywodraeth leol.

Yn ogystal â dyraniadau ar gyfer y GIG a llywodraeth leol, mae'r Gyllideb Derfynol yn ystyried rhagolygon diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Tachwedd ar gyfer chwyddiant a thwf mewn cyflogau, gan ddarparu swm cymharol fach o gyllid ychwanegol i bob Prif Grŵp Gwariant.

Mae'r Gyllideb Derfynol yn adlewyrchu cynnydd pellach yn y cyllidebau a ddyrennir i'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Diwydiannau Creadigol a Chwaraeon o fewn Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio. Mae hyn yn cynnwys £0.629m o refeniw a £4m o gyllid cyfalaf.

Mae'r cynnydd mewn refeniw yn darparu rhagor o gyllid i gyrff hyd braich, Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i adlewyrchu rhagolygon twf cyflog diwygiedig a ddarparwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o 3.2%. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dyraniadau hyn.

| Cyllideb Refeniw<br>*(ac eithrio arian parod)* | £000 | | |
|---|---|---|---|
| Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2026-27 | Newidiadau | Cyllideb Derfynol 2026-27 |
| Cymru Greadigol | 8,409 | 0 | 8,409 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 33,522 | 82 | 33,604 |
| Amgueddfa Cymru | 28,504 | 276 | 28,780 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 12,364 | 95 | 12,459 |
| Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | 9,936 | 0 | 9,936 |
| Cadw | 17,482 | 18 | 17,500 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 587 | 0 | 587 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 1,858 | 29 | 1,887 |
| Chwaraeon Cymru | 23,239 | 129 | 23,368 |
| Cyfanswm | 135,901 | 629 | 136,530 |

Mae'r £4m o gyfalaf ar gyfer y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon i'w fuddsoddi yn y Llyfrgell Genedlaethol, amgueddfeydd a llyfrgelloedd lleol yn ogystal â rhaglenni drwy Gyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru i ehangu mynediad a chyfranogiad.

# 3. Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru roi ffigurau i'r Pwyllgor ar gyfanswm y gwariant refeniw a chyfalaf ar ddiwylliant a chwaraeon gan adrannau nad ydynt yn ymwneud â diwylliant a chwaraeon. Dylai hyn gynnwys, ar gyfer pob blwyddyn ers 2024-25, ddadansoddiad o'r cyllid yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ac esboniad o sut cafodd y cyllid hwn ei ddefnyddio ar gyfer diwylliant neu chwaraeon.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Yn ogystal â'r cyllid yn y Setliad Llywodraeth Leol, y blaenoriaethau i'r Awdurdodau Lleol perthnasol benderfynu arnynt, a chyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer gweithgareddau diwylliant a chwaraeon nad ydynt wedi'u datganoli, gallwn nodi buddsoddiad mewn diwylliant o bron i £230m o bob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r ffigur hwn ar gyfer 2025-2026 ac fe'i cyfrifwyd ym mis Gorffennaf 2025. Nid oes gennym gyfrifiad ar gyfer 2024-2025.

Mae ffigurau 2025-2026 yn cynnwys £152.1m o refeniw a £75.4m o gyfalaf. Mae'n cynnwys buddsoddiad o'm portffolio fy hun, ond hefyd o feysydd mor amrywiol â'r Gymraeg, addysg, llywodraeth leol, iechyd, a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

Mae enghreifftiau penodol sydd y tu allan i'm portffolio yn cynnwys:

- Cymorth i Amgueddfa Cymru gan Grant Gwres Carbon Isel Sector Cyhoeddus Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru;
- Cymorth gan Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladau diwylliannol a thrwy grantiau eraill gan y portffolio Llywodraeth Leol;
- Cymorth gan ddyraniad cyllideb ehangach is-adran Cymraeg 2050 ar gyfer llu o sefydliadau sy'n darparu gweithgarwch diwylliannol yng Nghymru;

- Cymorth gan Addysg, sy'n cynnwys cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, rhaglen Dysgu Creadigol Cymru, a grantiau i Gyngor Llyfrau Cymru i gefnogi darllen er mwynhad.

Mae'n anodd dadgyfuno rhywfaint o ddata sy'n ychwanegol at yr uchod - er enghraifft, cyllid awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau diwylliannol, a chyllid i gefnogi gweithgareddau treftadaeth mewn Parciau Cenedlaethol. Cafwyd cyhoeddiadau cyllid eraill hefyd ers casglu'r data, nad oeddent wedi'u cynnwys yn ein cyfrifiadau. Er enghraifft Cronfa Dydd Gŵyl Dewi gwerth £1m, sy'n cynrychioli buddsoddiad mewn diwylliant o linell y gyllideb Twristiaeth a Marchnata.

Yn ogystal, ceir buddsoddiad cyfalaf pellach yn y maes chwaraeon, mewn cyfleusterau o'r tu allan i'm portffolio, drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Mae awdurdodau lleol hefyd yn buddsoddi mewn cyfleusterau a gweithgareddau chwaraeon a hamdden drwy gyllidebau llywodraeth leol. Ar ben hynny, mae cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer rhaglenni fel Pwysau Iach, Cymru Iach, Balch o'r Mislif, Tlodi Plant a Chymru Wrth-hiliol o bortffolios eraill.

Yn olaf, drwy ein strategaeth digwyddiadau, mae buddsoddiad ac enillion economaidd sylweddol yn deillio o gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr fel Ewro 28, Ironman Wales, Tour de France 2027 ac AIG Women’s Open. Mae gan rai o'r digwyddiadau hyn ymrwymiadau etifeddol hefyd i fuddsoddi ymhellach mewn chwaraeon ar lawr gwlad.

# 4. Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru gysoni cyllidebau â gwariant ataliol, fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilio Cymru a'r Pwyllgor hwn. Man cychwyn fyddai cynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon.

Ymateb: Derbyn

Roedd Cyllideb 2025/26 yn rhoi pwyslais cryf ar fuddsoddi mewn atal, gan gydnabod bod ymyrraeth gynnar a chynllunio tymor hir yn hanfodol i wella canlyniadau a lleihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn ailddatgan y flaenoriaeth honno. Mae'n sicrhau y gallwn barhau i gefnogi mesurau ataliol ar draws llywodraeth.

Rydym wedi cynnal cyllid termau real ar gyfer pob adran ac wedi cymhwyso cynnydd chwyddiant i sicrhau parhad gwasanaethau craidd. Mae'r sefydlogrwydd hwn yn caniatáu i adrannau gynnal ac adeiladu ar raglenni ataliol sydd eisoes ar waith—boed hynny ym maes iechyd, addysg, gofal cymdeithasol neu wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn ymwybodol o'r angen i gydbwyso buddsoddiad ataliol â phwysau'r galw presennol. Dyna pam rydym wedi blaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen ac wedi diogelu cyllid ar gyfer llywodraeth leol, y GIG ac addysg, gan alluogi adrannau i fwrw ymlaen â gwaith ataliol, tymor hwy ar yr un pryd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal yn ganolog i'n gwaith o gynllunio'r gyllideb, ac mae proses yr Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi ein helpu i ystyried sut mae penderfyniadau gwario yn cyfrannu at ganlyniadau hirdymor.

Rwyf wedi gwneud penderfyniadau gwario ar draws fy mhortffolio sy'n blaenoriaethu llesiant ac atal. Mae rhai o'r rhain wedi'u nodi yn y papur tystiolaeth a anfonais at Gadeirydd y Pwyllgor ar 3 Tachwedd.

Fel yr amlinellwyd uchod, dyrannwyd cyfalaf ychwanegol o £4m fel rhan o'r Gyllideb Derfynol gyda £0.5m o hyn yn cael ei ddyrannu i Chwaraeon Cymru i ehangu mynediad a chyfranogiad. Mae buddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon yn weithgaredd ataliol pwysig sy'n cefnogi iechyd a llesiant y genedl.

# 5. Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru rymuso sefydliadau diwylliant a chwaraeon drwy eu galluogi i wario cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn unol â'u prosesau llywodraethu eu hunain, a heb fod angen awdurdodiad ychwanegol diangen gan Lywodraeth Cymru. Wrth wneud hynny, dylai ystyried sut y gall leihau'r baich gweinyddol, ac yn lle hynny darparu mwy o gyllid fel cyfraniadau ychwanegol at eu cymorth grant.

Ymateb: Gwrthod

Yng Nghyllideb ddrafft 2026-27, rydym wedi nodi dyraniadau Cymorth Grant cynyddol ar gyfer y cyrff hyd braich diwylliant a chwaraeon. Pwrpas penodol y Cymorth Grant yw cefnogi costau gweithredol parhaus y cyrff hyd braich, neu gyllid y maent yn ei drosglwyddo fel grantiau i sefydliadau eraill.

Pan fydd corff hyd braich angen cyllid untro ychwanegol ar gyfer prosiectau penodol, er enghraifft i gefnogi gwelliannau yn ei ystad neu ei seilwaith, darperir hyn fel grant prosiect untro ar wahân ar ôl datblygu achos busnes. Ar gyfer prosiectau o'r fath, nid yw'n briodol dyrannu'r cyllid ychwanegol untro drwy fecanwaith Cymorth Grant, sydd wedi'i ddylunio i gefnogi costau gweithredol y sefydliad.

Pan fydd prosiectau penodol yn cael eu cynnig, mae'r dull achos busnes a ragnodir drwy'r Model Achos Busnes Gwell, y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys y DU, yn dal yn berthnasol. Mae'n safon a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer datblygu achosion busnes, a ddefnyddir ar draws y sector cyhoeddus.

Mae'r canllawiau hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau cyfalaf yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus drwy reoli prosiectau'n dda, wedi'u hategu gan lywodraethu clir. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r cyrff hyd braich i sicrhau bod y

broses yn cael ei deall yn glir a'i bod yn cael ei defnyddio'n hyblyg ac yn gymesur yn y canllawiau ar sail lefelau risg a buddsoddi a aseswyd. Rydym hefyd wedi cynnig mewnbwn arbenigol gan awdur y canllawiau.

Defnyddir y broses datblygu achos busnes i asesu risgiau, gwerth am arian, addasrwydd strategol a'r gallu i gyflawni. Mae'n sicrhau bod trefniadau atebolrwydd, llywodraethu a rheolaeth glir, sy'n berthnasol i faint y prosiect, yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni'n llwyddiannus.

# 6. Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- sefydlu ffrwd gyllido hirdymor gynaliadwy ar gyfer prosiect Celf
- darparu'r rhesymeg dros safbwynt y Gweinidog y dylai prosiect Celf fod yn hunangynhaliol, o gofio bod hynny fel petai'n mynd yn groes i ddau asesiad annibynnol o'r prosiect.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid Celf i gryfhau'r cynigion ar gyfer cyflawni yn y dyfodol. Mae hyn wedi cynnwys canolbwyntio mwy ar symud tuag at ddenu cyllid allanol o sawl ffynhonnell a dod yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Mae'r tri phartner i gyd yn rhoi blaenoriaeth i brosiect Celf yn eu llythyrau cylch gwaith. Roedd y cynnydd cylchol yn llinell sylfaen cyllid refeniw Cymorth Grant i'r tri phartner cenedlaethol yn 2025-26 yn cynnwys elfen ar gyfer parhau i ddarparu Celf.

Rydym wedi darparu £179,428 ar gyfer costau pontio a chyfraniad ychwanegol o hyd at £395,000 tuag at gostau gweithredu Celf yn ystod 2025-26. Cytunwyd hefyd ar gytundeb mewn egwyddor o hyd at £395,000 tuag at gostau gweithredu Celf yn ystod 2026-27. Darparwyd y cyllid hwn er mwyn rhoi mwy o amser i'r partneriaid archwilio a sicrhau cyllid o ffynonellau allanol ehangach. Mae'r symiau hyn yn cyfateb i'r rhai y gofynnwyd amdanynt gan y tri phartner arweiniol ac maent yn ychwanegol at gyllid a ddarparwyd eisoes drwy eu Cymorth Grant.

Rydym yn deall y pryderon ynghylch y gallu i sicrhau cyllid allanol a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r tri phartner. Mae'n rhesymol disgwyl i'r fenter fod yn hunangynhaliol dros amser ac rydym wedi gofyn i ragor o waith gael ei wneud i ystyried ffynonellau cyllido ehangach posibl, gan gynnwys y sector preifat.

# 7. Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid refeniw ar gyfer Chwaraeon Cymru er mwyn iddo gael o leiaf y cynnydd cyfartalog mewn cyllidebau refeniw a ddefnyddir ar draws cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Gyllideb Derfynol yn cynnwys cynnydd o £0.129m yng nghyllideb refeniw Chwaraeon Cymru i adlewyrchu rhagolygon twf cyflogau diwygiedig a ddarparwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o 3.2% ynghyd â chynnydd o £0.5m yn y gyllideb gyfalaf i ehangu mynediad a chyfranogiad. Bydd y buddsoddiad cyfalaf uwch, gan fynd â'r dyraniad i £11m yn 2026-27, yn parhau i gefnogi rhaglenni allweddol fel buddsoddi mewn cyfleusterau a datblygu chwaraeon ar lawr gwlad. Bydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a chadarnhaol i fywydau pobl a bydd yn cael ei dargedu at ardaloedd difreintiedig a chymunedau lle mae angen mwy o gefnogaeth.

# 8. Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru osod amserlen glir i wneud penderfyniad terfynol am y berthynas rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Ymateb: Derbyn

Cyn bo hir byddaf yn cyhoeddi adroddiad y Gweithgor traws-sefydliadol a oedd yn adolygu'r berthynas rhwng Cadw a'r Comisiwn Brenhinol a Datganiad Ysgrifenedig yn amlinellu'r camau nesaf.

Mae'r adolygiad yn rhan allweddol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth amgylchedd hanesyddol cynaliadwy o ansawdd uchel i Gymru. Ystyriodd y grŵp dri opsiwn ar gyfer y berthynas yn y dyfodol: cynnal y trefniadau presennol, cydweithio strategol agosach, ac uno Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn llwyr i greu gwasanaeth amgylchedd hanesyddol unedig newydd Llywodraeth Cymru. Daeth i'r casgliad mai uno sydd â'r potensial mwyaf i sicrhau manteision hirdymor cynaliadwy i'r sector ac i bobl Cymru, ond bod angen gwneud rhagor o waith manwl – yn enwedig i fynegi manteision strategol a chostau eu cyflawni, ac i sefydlu'r mesurau sydd eu hangen i ddiogelu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

# 9. Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion pellach ynghylch y "dyraniad o £1.97m i Medr i gefnogi darpariaeth *conservatoire* cerdd a drama yn seiliedig ar berfformiad". Dylai'r manylion hyn gynnwys o ba ran o gyllideb Llywodraeth Cymru y daw'r cyllid hwn, pa ganlyniadau y bydd y cyllid yn eu darparu, ac a yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn cynnal y cyllid hwn yn barhaus.

Ymateb: Derbyn

Bydd y cyllid yn cael ei ddarparu o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol. Bydd y cyllid yn diogelu darpariaeth addysg uwch *conservatoire* yng Nghymru, a bydd Medr yn monitro sut mae cyllid yn cael ei ddefnyddio i sicrhau ei fod hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn buddsoddiad parhaus mewn gweithgareddau allgymorth, ehangu mynediad a chenhadaeth ddinesig. Pennwyd llinell sylfaen i'r cyllid hwn fod ar gael eto mewn blynyddoedd ariannol i ddod.

# 10. Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion ei dyraniadau ar gyfer newyddiaduraeth ac i Gyngor Llyfrau Cymru yn 2026-27. Wrth wneud hynny, dylai egluro sut mae wedi ystyried cyflog ac amodau gwaith priodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y sectorau hyn.

Ymateb: Derbyn

Cytunir ar y dyraniadau ar gyfer newyddiaduraeth ac i Gyngor Llyfrau Cymru yn 2026-27 fel rhan o broses ffurfiol y gyllideb. Mae'r broses hon yn cynnwys ystyried sut mae penderfyniadau'n cyd-fynd â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwaith teg.

# 11. Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i argymhellion adroddiad 2023 O Gymru ac i Gymru: Tuag at Ddyfodol Cynaliadwy ar gyfer Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd, gan egluro sut y bydd unrhyw waith i weithredu ar yr adroddiad hwn yn cael ei ariannu.

Ymateb: Derbyn

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i adroddiad 2023 ‘O Gymru ac i Gymru: Tuag at Ddyfodol Cynaliadwy ar gyfer Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd’ yn ei Datganiad Ysgrifenedig ar 12 Mai 2025, lle cadarnhawyd y byddai cyfanswm o £350,000 o gyllideb Cymru Greadigol yn cael ei ddyrannu i gefnogi newyddiaduraeth yn 2025-26. Ers hynny, dyfarnwyd dros £350,000 i wyth prosiect sy'n cyflawni'n uniongyrchol yn erbyn yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad drwy Gronfa Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru, ac i gefnogi parhad Cronfa Newyddiaduraeth PING! News CIC a swydd gohebydd y Senedd yn y Caerphilly Observer.

# 12. Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru egluro a fydd cyhoeddiad Rhagfyr 2025 ynghylch £2.5 miliwn ychwanegol ar gyfer y diwydiannau creadigol yn cael unrhyw effaith ar ddyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27.

Ymateb: Derbyn

Bydd cyfalaf ychwanegol yn 2025-26 yn cynyddu'r manteision i'r sector creadigol drwy gyflwyno prosiectau a gwblhawyd yn 2025-26 a fydd yn rhyddhau ymrwymiadau ariannol yn 2026-27. Bydd hyn yn caniatáu i Cymru Greadigol gefnogi cynyrchiadau ychwanegol yn 2026-27, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i griwiau a chwmnïau cadwyn gyflenwi yng Nghymru. Bydd hefyd yn caniatáu i fwy o gyllid gael ei ddyrannu i feysydd blaenoriaeth eraill fel Gemau.